Adroddiad y Cadeirydd 2015 – 2016

Mr Gareth Parry

Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus a phrysur iawn eleni eto yn yr ysgol. Ysgrifennwyd yr adroddiad yma ar ran y corff llywodraethol yn amlinellu digwyddiadau'r flwyddyn academaidd 2015-2016. Cynhaliwyd cyfarfod Rhieni ar y 4ydd o Dachwedd 2015 am 7yh, roedd dau rhiant yn bresennol.

Aelodau Corff Llywodraethol 2015-2016 Members of the Governing Body

Cynrychiolwyr yr Awdurdod/ *Authority Representative:*

Cyng/Cllr.Mrs. Elizabeth Evans,

Mr. Adrian Crees,

Mr. John Whiteley

Mr Dai Davies

Rhieni Llywodraethwyr/ P*arent Governors :*

Mr.Gareth Parry (Cadeirydd/Chair)

Mr.Tom G.Williams (Ymddiswyddo)

Mrs Dawn Tarling(Is-Gadeirydd/ Vice Chair

Mrs. Jo Williams (Tymor yn dod i ben Mai 2017)

Llywodraethwyr Cyfetholedig /*Co-opted Governors:*

Mr. David Jones

Mr. Denfer Morgan

Mrs. Susan Edwards

Athro/Athrawes Lywodraethwr/*Teacher Governor: Miss Mair Jones*

Miss Mair Jones, Ysgol Gynradd Aberaeron, SA46 0BQ – 01545 570313

Llywodraethwr staff/ *Staff Governor:*

Miss C.Davies, Ysgol Gynradd Aberaeron, SA46 0BQ – 01545 570313

Sylwebydd / *Observer* :

Mrs Catrin Thomas, Ysgol Gynradd Aberaeron, SA46 0BQ – 01545 570313

Gwasanaeth Clercio y Corff Llywodraethu/ *Clerking Service to the Governing Body*

Pauline Lucas Pauline.lucas@ceredigion/gov.uk

Data Cymharol am y flwyddyn

This report uses data for 2015 for LA and Wales comparative information

Ysgol Gynradd Aberaeron **LA/School no: 667/2281**
Ceredigion

School comparative information: Foundation Phase Outcomes 2016

Percentage of boys, girls, and pupils achieving at least the expected outcome (Outcome 5+):

	Boys			Girls			Pupils		
	School 2016	LA 2015	Wales 2015	School 2016	LA 2015	Wales 2015	School 2016	LA 2015	Wales 2015
PSD	100	97	92	100	99	97	100	98	95
LCW	91	91	88	100	96	95	95	94	91
LCE	0	94	84	0	94	92	0	94	88
MDT	100	93	87	100	96	92	100	95	90
FPI	91	90	83	100	95	91	95	92	87



School Performance over time (2012 - 2016)



Notes:

1. - = No historical data available
2. Areas of learning: PSD = Personal and social development, well-being and cultural diversity; LCW = Language, literacy and communication skills (in Welsh); LCE = Language, literacy and communication skills (in English); MDT = Mathematical development; FPI = Foundation Phase Indicator. To achieve the FPI, a pupil must achieve at least the expected outcome (Outcome 5+) in both PSD and MDT and either LCW or LCE.
3. If there were no pupils eligible for assessment in a subject for a particular year the graph will discontinue and show a gap for that year.

This report uses data for 2015 for LA and Wales comparative information

Ysgol Gynradd Aberaeron **LA/School no: 667/2281**
Ceredigion

School comparative information: National Curriculum Assessments 2016
Key Stage 2

Percentage of boys, girls, and pupils achieving at least the expected level (Level 4+):

	Boys			Girls			Pupils		
	School 2016	LA 2015	Wales 2015	School 2016	LA 2015	Wales 2015	School 2016	LA 2015	Wales 2015
English	70	89	87	100	94	93	82	91	90
Welsh	70	84	87	100	93	93	82	88	90
Maths	70	91	88	100	93	92	82	92	90
Science	70	92	90	100	94	93	82	93	91
CSI	70	89	85	100	92	91	82	90	88



School Performance over time (2012 - 2016)



Notes:

1. Figures for Welsh refer to attainment in Welsh first language only.
2. CSI = Core Subject Indicator. To achieve the CSI a pupil must achieve at least the expected level 4 in both Mathematics and Science and either English or Welsh first language.
3. If there were no pupils eligible for assessment in a subject for a particular year the graph will discontinue and show a gap for that year.

Adroddiad Cyllid

Financial Performance 2015/16 **Cyflwyniad Ariannol 2015/16**					
Aberaeron					
2281		**£**	**£**		
Employee Costs					**Costau Gweithwyr**
Teacher Costs		402,909			Costau Athrawon
Teaching Assistant Costs		44,615			Costau Cynorthwywyr Dysgu
Caretaking Costs		127			Costau Gofalwyr
Administrative Officers		10,256			Swyddogion Gweinyddol
Supervisors Costs		6,392			Costau Goruchwylwyr
Supply Teacher Costs		17,353			Costau Athrawon Cyflewni
Other Employee Costs		1,202			Costau Gweithwyr Eraill
TOTAL EMPLOYEE COSTS			482,855		***CYF. COSTAU GWEITHWYR***
Premises Costs					**Costau'r Adeilad**
Repair and Maintenance		17,004			Cynnal a Chadw
Grounds Maintenance		1,075			Cynnal a Chadw'r Tir
Energy Costs		11,231			Costau Ynni
General Rates		10,002			Trethi
Water Charges		3,552			Costau Dŵr
Cleaning Supplies and Services		14,514			Nwyddau a Gwasanaethau Glanhau
TOTAL PREMISES COSTS			57,378		***CYF. COSTAU'R ADEILAD***
Transport Costs					**Costau Trafnidiaeth**
Direct Transport Costs		2,090			Costau Trafnidiaeth
Travelling Costs		3,252			Costau Teithio
TOTAL TRANSPORT COSTS			5,342		***CYF. COSTAU TRAFNIDIAETH***
Supplies and Services					
Teaching Resources		15,673			Adnoddau Dysgu
ICT Resources		17,033			Adnoddau TGCh
Catering Costs		20,799			Costau Arlwyo
Service Level Agreements		9,760			Cytundebau Lefel Gwasanaeth
Photocopying Costs		3,129			Costau Llungopïo
Other Supplies and Services		13,960			Nwyddau a Gwasanaethau Eraill
TOTAL SUPPLIES AND SERVICES			80,353		***CYF. NWYDDAU A GWASANAETH***
GROSS EXPENDITURE			**625,928**		***GWARIANT GROS***
Less: INCOME					**Wedi'i Leihau :INCWM**
Parental/PTA Income		-36,290			Cyfraniadau Rhieni/CRhA
Grants		-12,163			Grantiau
Other Income		-1,490			Incwm Arall
TOTAL INCOME			-49,944		***CYFANSWM YR INCWM***
NET EXPENDITURE			575,984		***GWARIANT NET***
Funding Available					**Cyllid ar Gael**
Formula Funding 2015/16		599,799			Cyllid yn ôl Fformiwla 2015/16
Balance b/f 1 April 2015		33,491			Gweddill c/d 1 Ebrill 2015
			633,290		
NET VARIANCE			57,306		***AMRYWIANT NET***
INTEREST			0		***LLOG***
TOTAL 15/16 SURPLUS			57,306		***CYFANSWM ARIAN WRTH GEFN***

Grant Amddifadedd Difreintiedig

Dyrennir y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) i ysgolion â disgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac y gwyddys eu bod ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau Ysgol am ddim (h-PYDd) a disgyblion sydd wedi 'derbyn gofal' yn barhaus am fwy na chew mis (Plant Mewn Gofal). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau Ysgol am ddim neu sy'n PMG.
Fel Ysgol rydym wedi cytuno ar y tri cham a ganlyn:

1. Nodi'r grwpiau targed o ddisgyblion, eu nodweddion a'u hanghenion dysgu
2. Cynllunio ymyraethau sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau
3. Monitor a gwerthuso effaith yr adnoddau

Yn 2015-2016, darparwyd i Ysgol Gynradd Aberaeron ddyraniad Grant Amddifadedd Disgyblion o £8,300
Yn Ysgol Gynradd Aberaeron mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Ceredigion ac ERW, i hyrwyddo cynnydd a lleihau effaith rhwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.
Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i :

- Wella dysgu ac addysgu drwy ddarparu amrywiol raglenni cefnogi
- Darparu rhaglenni ymyrraeth a chymorth cynaliadwy y profwyd eu bod yn cael yr effaith fwyaf e.e. Dyfal Donc, Satpin, Trandep, Cyfri Ceredigion
- Darparu hyfforddiant penodol o safon uchel i staff, gan ganolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd a chau'r bwlch.
- Mireinio systemau olrhain data i nodi anghenion dysgwyr y grwpiau hyn, tracio eu cynnydd tuag at dargedu, ac i fonitro effaith ymyraethau yn effeithiol;
- Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill, y gymuned a sefydliadau eraill e.e Gwasanaethau Cymdeithasol, Tim o amgylch y teulu a Ysgol Gyfun Aberaeron.
- Gwella presenoldeb y grwpiau targed
- Cefnogi dysgwyr a'u teuluoedd drwy gynnig nosweithiau addysgol.
- Datblygu capasiti arweinyddiaeth i adnabod a gwerthuso effaith y camau hyn yn nhermau gwella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau y disgyblion yn y grwpiau targed, ac i ymyrryd yn effeithiol ac yn amserol pan mae'r cynnydd yn annigonol.

Presenoldeb

Ysgol Gymunedol Gynradd Aberaeron

From: *01/09/2015* **To:** *19/07/2016*

School Summary

	Present	*Unauthorised Absence*	*Authorised Absence*	Total
Sessions	54929	603	1758	57290
Percentage	95.88%	1.05%	3.07%	100.00%

School Summary By Gender

	Present	*Unauthorised Absence*	*Authorised Absence*	Percentage
M	96.36%	0.95%	2.69%	50.93%
F	95.38%	1.16%	3.46%	49.07%
Percentage	95.88%	1.05%	3.07%	100.00%

School Summary by Class

	Present	*Unauthorised Absence*	*Authorised Absence*	Percentage
BLWYDDYN 1	92.95%	1.99%	5.06%	20.67%
BLWYDDYN 2	97.07%	1.12%	1.81%	13.11%
BLWYDDYN 3	96.39%	1.02%	2.59%	16.24%
BLWYDDYN 4	96.94%	0.46%	2.60%	19.90%
BLWYDDYN 5	96.26%	0.81%	2.93%	18.80%
BLWYDDYN 6	96.63%	0.74%	2.63%	11.28%
Percentage	95.88%	1.05%	3.07%	100.00%

<u>Cysylltiadau Cymunedol</u>

- Cafwyd Bore Coffi Macmillan llwyddiannus iawn yn yr ysgol ddiwedd mis Medi '15 a llwyddwyd i godi £768 i'r gronfa. Gwisgodd pawb mewn dillad pinc a gwyrdd gan gyfrannu at yr elusen. Am yr ail dro cafwyd cystadleuaeth 'Coginio Cŵl' ar ffurf 'bakeoff' a chyrhaeddodd degau o gacennau creadigol a lliwgar. Enillwyd y gystadleuaeth gan Cian Buswell ac mi werthwyd y cacennau am elw sylweddol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i drigolion y dre a wnaeth alw heibio.
- Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth ein cynorthwyo a'n cefnogi yng Ngharnifal Aberaeron eleni. Trwy ein hymdrechion gyda'r casgliad bwcedi arian, derbyniwyd £500 gan Bwyllgor Gwelliannau Tref Aberaeron. Diolch yn fawr iawn i bawb.Mae Ffrindiau'r Ysgol yn brysur yn trefnu gweithgareddau eleni eto. Maent wedi prynu piano newydd eisioes a byddant yn prynu 15 gliniadur yn fuan. Diolch iddynt am eu gwaith diflino.

- Diolch i gôr yr ysgol am berfformio mor dda yng nghyngerdd dyngarol 'Achub y Plant' a drefnwyd gan Marjory Wheeler.
- Llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o £213.80 tuag at Plant Mewn Angen wrth i'r Cyngor Ysgol drefnu i bawb ddod i'r ysgol gyda 'Gwallt Gwyllt'.

- Cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Peniel. Thema y gwasanaeth oedd 'Cartrefi' a daeth Y Parch Wyn Thomas, i annerch y plant. Yn ystod y gwasanaeth gwnaed casgliad o £248 tuag at Bwyllgor Ymchwil Cancr Aberaeron. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

- Diolch i bawb a wnaeth ddod i Llanina ar fore Sadwrn, Tachwedd 7fed i gymryd rhan mewn cyngerdd 12 awr. Diolch am y cyfle i fod yn ran o ymgyrch mor wych a gododd dros £11,000 mewn diwrnod.

- Cafwyd ffair lyfrau arbennig o lwyddiannus. Llwyddwyd i dderbyn llawer iawn o lyfrau newydd i'r ysgol
- Mae yna ddosbarth allanol wedi ei adeiladu ar y cae. Bydd hwn yn gaffaeliad mawr wrth i ni fedru mynd allan i astudio ac i wneud gweithgareddau. Mae'r plant wedi ei enwi yn 'Cwtsh'.Diolch i Ffrindiau'r Ysgol am fodloni i gyfrannu at y gost.
- Cafodd côr yr ysgol anrhydedd arbennig pan ofynnwyd iddynt berfformio yng nghwmni Shân Cothi ac Aled Wyn Davies, yn Eglwys Y Drindod, Aberaeron. Bu'r côr yn canu dwy gân ac yna fe ymunwyd â Shân ac Aled i ganu 'Danfonaf Angel'. Cafodd y gynulleidfa eu gwefreiddio gan y perfformiad. Diolch am y cyfle.
- Trefnwyd Barbiciw a Helfa Drysor a hefyd stondin lwyddiannus a Ras Hwyaid yn yr Wŷl Bysgod gan Ffrindiau'r Ygol.
- Cafwyd bwrlwm mawr wrth i 23 o gwmniau bach diddorol lenwi y neuadd a'r iard. Diolch i Mr Dai Morgan am ddod i feirniadu. Ar ddiwedd y dydd Catrin Creadigol a C'est bon! Sebon oedd yn fuddugol.
  xxxxx

- Er bod y tywydd yn hynod stormus, diolch i bawb a wnaeth droi allan i gefnogi 'Nadolig Cymunedol Aberaeron'.Diolch i bawb a wnaeth gynorthwyo ar stondin 'Ffrindiau'r Ysgol'.
- Aeth dau grŵp i ddiddanu ein cymdogion yn Min y Môr ar fore Llun a Iau cyn y Nadolig. Cafwyd croeso mawr a diolch i'r plant am berfformio mor hwyliog.

- Diolch i wirfoddolwyr o Rotari Aberaeron am eu cymorth gyda darllen yn yr ysgol.

<u>Chwaraeon</u>

- Diolch i'r disgyblion hynny a wnaeth gystadlu yn Ras Crannog. Dyma'r tro cyntaf i'r ras gael ei chynnal a cafwyd canlyniadau ardderchog.
  Seren Davies, 1af – Merched Bl.3 a 4
  Krzysztof Dolniak, 2il – Bechgyn Bl.3 a 4
  Sara Cond, 3ydd – Merched Bl.5 a 6
  Edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf eto.
- Un o ddigwyddiadau cyntaf y flwyddyn ym Medi oedd y daith i gefnogi tîm pêl-droed Cymru yng Nghaerdydd ar ddechrau'r tymor. Cafwyd diwrnod i'w gofio.
- Llongyfarchiadau i Kyle a Lucy Bl.6 a Rhys a Sara Bl.5 a gafodd eu hethol yn Lysgenhadon Chwaraeon am 2015-2016.
- Cafodd disgyblion Bl.6 gyfle gwych i fod yn rhan o fideo newydd sy'n hyrwyddo Gwersyll Llangrannog.Diolch am y cyfle a diwrnod llawn dop o hwyl.
- Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd yr ysgol a fu'n llwyddiannus drwy ddod yn fuddigol yng nghystadleuaeth Cylch Aeron yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog.Yn y rownd rhanbarthol llwyddodd y tîm wneud yn arbennig o dda gan ddod i'r 4ydd safle.
- Aeth 22 o blant i gynrychioli'r ysgol ac wedi diwrnod brwd o gystadlu llwyddodd yr ysgol i ennill 6 ras unigol a 8 ras gyfnewid ac o ganlyniad bydd pob un o'r 22 yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yng Ngala Cymru yng Nghaerdydd.
  <u>Pencampwyr Unigol - Bl.5 a 6</u>
  Alyssa Miles - broga
  Caryl Shepherd –pili pala, cymysg unigol
  <u>Bl.3 a 4</u> - Finley Tarling – broga
  Sophie Monrowe – cefn
  <u>Pencampwyr Cyfnewid - Bl. 5 a 6</u>
  Rhydd (bechgyn) – Declan, Elis, Finley, Lee

Amrywiol (bechgyn) – Declan, Osian, Lee, Finley
Amrywiol (merched) – Aimee, Alyssa, Caryl, Lucy
Cymysg (b a m) – Chelsea, Elis, Osian, Sara
Bl. 3 a 4
Rhydd (bechgyn) – Wil, Brody, Harley, Finlay
Amrywiol (bechgyn) – Brody, Finlay, Harley, Wil
Amrywiol (merched) – Sophie, Beca, Catrin, Seren
Cymysg (b a m) – Acacia, Beca, Zeke, Zac

- Llongyfarchiadau i'r 22 o ddisgyblion a deithiodd i Gaerdydd i gystadlu yng Ngala Cenedlaethol yr Urdd ar Ionawr 23ain yn y Pwll Nofio Cenedlaethol. Bu'r disgyblion yn cystadlu mewn 13 o gystadlaethau gan gynnwys 10 ras gyfnewid. Llongyfarchiadau i dîm cyfnewid nofio rhydd bechgyn Bl. 5 a 6 a gipiodd y fedal efydd. Aelodau'r tîm oedd Lee, Finley, Elis a Declan. Diolch i'r holl rieni a ffrindiau a deithiodd i Gaerdydd i gefnogi.
- Teithiodd 40 o blant i Bencampwriaeth Trawsgwlad Dyfed yng Nghaerfyrddin. Cafwyd canlyniadau gwych:-

Tîm Bechgyn Bl.5—1af

Tîm Bechgyn Bl.4—1af

Tîm Merched Bl.4—2il

Tîm Merched Bl.3—3ydd

- Yn ennill medalau yn y 10 cyntaf oedd Rhys J. 1af; Seren 2il; Martha 2il; Finlay 8ed; Steffan 9ed; a Lucy 10ed. Erbyn diwedd y noson cyhoeddwyd mai Ysgol Gynradd Aberaeron oedd Pencampwyr Dyfed am 2016.
- Cynrychiolodd Rhys, Seren a Lucy Dyfed neithiwr yn erbyn Morgannwg a dyma'r canlyniadau—Rhys 3ydd; Seren 6ed a Lucy 18ed. Dyfed wnaeth ennill y gystadleuaeth ac mi oedd y tri yn rhan bwysig o'r fuddugoliaeth.
- Ymwelodd Mair Tomos Ifans â'r ysgol i gynnal gweithdai Chwaraeon Buarth. Mwynhaodd Blynyddoedd 2, 3 a 4 gymryd rhan mewn gemau cyffrous
- Mwynhaodd tua 100 o aelodau'r Urdd fore braf yng Nghlwb Rygbi Aberaeron yn cyd-chwarae gydag aelodau eraill y cylch. Diolch i Rhydian am drefnu gemau mor gyffrous i ni.
- Cynhaliwyd glwb tennis drwy dymor yr Haf, diolch i Gwlb Tenis Aberaeron am gael defnyddio eu cyrtiau
- Diolch i Gari Jones am dreulio dau ddiwrnod yn rhoi gwersi beicio i Bl.6 Bydd pawb nawr yn beicio yn saff !
- Mae Finlay Tarling, disgybl yn Bl.4 wedi cyflawni camp anhygoel trwy ddod yn ail yn Ras Feicio Paris Roubaix yn Ffrainc ar ddiwedd Mai. Bu hefyd yn Gothenburg, Sweden yn cystadlu mewn cystadleuaeth i rai lle roedd y mwyafrif 2 flynedd yn hŷn nag ef. Gwych, tasg anhygoel!
- Llongyfarchiadau i dîm y merched a thîm y bechgyn am wneud mor dda yng nghystadlaethau pêl-droed Urdd y Rhanbarth
- Traws gwlad Cenedlaethol yr Urdd - Bu 30 o blant yn cynrychioli Ysgol Gynradd Aberaeron ac fe gafwyd ddiwrnod llwyddiannus dros ben. Llwyddwyd i ennill 17 medal
- Llongyfarchiadau i'r tîm criced blwyddyn 4 a gystadlodd yn nhwrnament yn Llandysul.

Datganiad y Cwricwlwm

Rhannir plant i ddosbarthiadau yn ôl oedran. Cynhwysir holl raglenni astudio statudol Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen Cwricwlwm Cenedlaethol gogyfer plant yng nghynlluniau cwricwlaidd yr ysgol. Mae'r cwricwlwm yn gytbwys ac yn eang ac fe ddysgir rhan helaeth ohono drwy themâu

trawsgwricwlaidd er mwyn sicrhau priodoldeb ar draws y cwricwlwm. Fe gynllunnir y themâu hyn yn y lle cyntaf gan yr ysgol gyfan fel bo dilyniant, cydbwysedd a gwahaniaethu yn cael ei sicrhau. Darperir rhaglen fydd yn cynnwys cynnydd mewn sgiliau a deallusrwydd o syniadau ar bob lefel, yn ogystal â sicrhau bod amcanion gogyfer a phob oed yn cael ei gynnig. Y nôd drwy'r ysgol yw rhoi amrywiaeth eang o brofiadau diddorol i bob plentyn drwy eu gwaith thema, ac felly, yn eu galluogi i ddatblygu eu potensial yn llawn. Mae'r Meysydd Dysgu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gymwys i bob plentyn oni bai ei fod wedi ei eithrio drwy ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, a'r plant meithrin a derbyn sydd yn dilyn gweithgareddau sydd yn seiliedig ar y Canlyniadau Dymunol. Gellir cysylltu â'r pennaeth er mwyn cael gweld dogfennau sy'n ymwneud â chwricwlwm yr ysgol. Rydym hefyd yn croes gyfeirio pob agwedd o ddysgu gyda'r fframwaith Rhifedd/Llythrennedd.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ceisir sicrhau mynediad i addysg eang, gytbwys, perthnasol a gwahaniaethol i bob plentyn, a golyga hyn bod athrawon yn ceisio ymateb i anghenion unigolion. Mae'n angenrheidiol adnabod plant ag anghenion addysgol arbennig cyn gynted â phosib gan fod anawsterau wedyn yn hawsach eu goresgyn.

Rhan amlaf, adnabyddir plant ag anghenion addysgol arbennig drwy asesiadau rheolaidd dosbarth gan athrawon. Dangosa'r rhain gryfderau a gwendidau a ble mae angen rhaglenni dysgu unigol ar unigolion.

Trwy asesiadau a monitro gofalus, a thrwy drafod bob cam gyda'r rhieni, ystyriwn p'un ai defnyddio grwpiau ymyrraeth, cymorth yr athrawon cynnal neu roi cymorth yn y dosbarth drwy waith gwahaniaethol. Pan mae angen, gofynna'r ysgol a'r rhieni am gymorth ychwanegol oddi wrth asiantaethau allanol fel y seicolegydd addysg, athrawon arbenigol a.y.b..

Gweithgareddau Cwricwlaidd a pherfformiadau Cerddorol

- Mwynhaodd CA.2 berfformiadau gwych gan gwmni 'Mewn Cymeriad' a oedd yn portreadu Owain Glyndŵr a'i fywyd. Mae rhain bob amser yn berfformiadau sy'n creu bwrlwm.
- Llongyfarchiadau i bawb a fu'n gyfrifol am sicrhau ein bod wedi derbyn Baner Werdd arall. Bu swyddogion 'Sgolion Eco yn cyfweld ein Pwyllgor Eco ac yn mynd am daith o gwmpas i weld y datblygiadau diweddaraf. Ymlaen nawr i sicrhau y Brif Wobr Blatinwm.
  - Yn ystod Mis Medi, etholwyd ein Llysgenhadon am y flwyddyn. Cafodd pob ymgeisydd gyfle i osod ei faniffesto, ac fe wnaed hynny gydag argyhoeddiad a graen. Ar ddiwedd y dydd, ar ôl ras agos yr ymgeiswyr llwyddiannus oedd – Caryl Shepherd, Deian Buswell a Swyn Dafydd.
- Mwynhawyd diwrnod arbennig ar Hydref 9fed – pan gyrhaeddodd pawb yr ysgol mewn gwisgoedd a oedd yn amrywio o sipsiwn i ladron penffordd ar geffylau a sgweiar y plas. Treuliwyd y dydd yn myfyrio dros waith T.Llew ar wahanol lefelau. Bu'r diwrnod yn sbardun i ail-ymweld â llyfrau T.Llew i staff a disgyblion.
- Teithiodd 95 o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ar ddau fws i Lambed i fod yn rhan o weithgaredd Sbri-di-ri a drefnwyd gan yr Urdd, Cered a Mudiad Ysgolion Meithrin. Cafwyd bore difyr yn dawnsio a chanu gyda Gwenda Owen a'i band.Diolch i'r rhieni hynny a wnaeth ein cynorthwyo
- Cafodd disgyblion Derbyn hyd Bl.6 gyfle i weld a chlywed perfformiad gan bedwarawd offerynnol 'Red Priest' yn Ysgol Gyfun Aberaeron. Cafwyd dehongliadau diddorol a rhyngweithiol a fwynhawyd yn fawr. Diolch i Wasanaeth Cerdd Ceredigion am drefnu
- Eleni cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Peniel. Thema y gwasanaeth oedd 'Cartrefi' a daeth Y Parch Wyn Thomas, i annerch y plant. Yn ystod y gwasanaeth gwnaed casgliad o £248 tuag at Bwyllgor Ymchwil Cancr Aberaeron. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

- Mae'r ysgol wedi ymuno â Chymuned Ddysgu sy'n hyrwyddo dysgu digidol. Bellach mae gennym Ddewiniaid Digidol sef, James, Tilly, Hamid a George sydd wedi bod yn mynychu cyrsiau gyda staff ac yn hyrwyddo dysgu digidol ar draws yr ysgol.
- Maent hefyd wedi cyflwyno pŵer bwynt i'r ysgol gyfan ar e- ddiogelwch. Diolch am eich gwaith a'ch brwdfrydedd
- Cafodd disgyblion Bl.6 gyfle gwych i fod yn rhan o fideo newydd sy'n hyrwyddo Gwersyll Llangrannog. Diolch am y cyfle a diwrnod llawn dop o hwyl.
- Cafwyd croeso mawr gan Gymdeithas Henoed Aberaeron pan aeth disgyblion i'w diddanu yn ystod eu tê Nadolig. Diolch i bawb am eu croeso ac i'r plant am eu perfformiad graenus.
- Diolch i bawb a gefnogodd y ddwy sioe eleni. Bu prysurdeb mawr wrth baratoi a chafwyd perfformiadau arbennig ar y ddwy noson gyda'r Neuadd dan ei sang.
- Aeth disgyblion blwyddyn 3 ar daith dros nos i Wersyll Llangrannog yng nghwmni disgyblion o ysgolion eraill y sir. Cafwyd amser bendigedig yn profi gweithgareddau o bob math a gwneud ffrindiau newydd.
- Llongyfarchiadau i Grace Williams am ennill rownd gyntaf cystadleuaeth Cogurdd yr Urdd ac i Bryn Southgate am ddod yn ail.
- Ymwelodd Mr Davies o Techniquest â Bl. 3 a 4 a'r Cyfnod Sylfaen gyda gweithdai ar gerddoriaeth.Cafodd pawb amser wrth eu bodd yn arbrofi.
- Ar Fawrth 14eg rydym yn disgwyl ymwelwyr o'n hysgol gyswllt yn Tseina, a fydd yn ymweld â ni dros ddau ddiwrnod.

- Mwynhaodd plant Bl. 1 a 2 ymweliad a Chastell Aberteifi gan mai dyma yw eu thema y tymor hwn. Cafwyd diwrnod cyffrous gyda chyfle i wneud pob math o weithgareddau.
- Derbyniodd disgyblion Blwyddyn 5 hyfforddiant Cymorth Cyntaf gyda'r heddlu. Dysgodd y disgyblion sgiliau cymorth cyntaf ynghyd a sgiliau arbed bywyd.
- Diolch i Mrs Efana Lloyd sydd wedi bod yn cynorthwyo Bl.1 gyda'u gwersi ar groesi'r ffordd. Mae hi mor bwysig bod y disgyblion yn gallu cadw'n ddiogel ar y briffordd. Diolch
- Gwnaeth holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen fwynhau perfformiad yn yr ysgol gan 'Arad Goch' - sef, 'Oes Rhaid i mi Gysgu! Mae bob amser yn braf i weld eu perfformiadau creadigol ac arbrofol.

  Llongyfarchiadau mawr i'r plant a ddaeth i'r brig yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Felinfach:-
  Ela Mablen Griffiths-Jones—1af, Llefaru Bl.2 ac Iau
  Ela Mablen Griffiths-Jones—1af, Unawd Cerdd Dant Bl.2 ac Iau
  Fflur McConnell—1af, Unawd Bl.2 ac Iau
  Connor Franklin—1af, Llefaru i Ddysgwyr Bl.5 a 6
  Fflur McConnell—2il, Llefaru Bl.2 ac Iau
  Ela Mablen Griffiths-Jones—3ydd, Unawd Bl.2 ac Iau
  Caryl Shepherd—3ydd, Unawd Bl. 5 a 6
  Swyn Dafydd—3ydd, Alaw Werin Bl.6 ac Iau
  Parti Unsain—1af
  Parti Llefaru, 2il
  Ymgom—2il
  Ensemble Offerynnol—2il
  Swyn Dafydd—2il, Unawd Telyn
  Mi wnaeth 35 o ddisgyblion gystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd, ymdrech arbennig gan bawb.
  Cyrhaeddodd pawb i'r ysgol mewn gwisgoedd o bob math, fel cymeriadau allan o'u hoff lyfrau. Yn y dosbarthiadau cafwyd amrywiaeth o weithgareddau yn seiliedig ar ein hoff lyfrau.

- Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol yn Eisteddfod Sir yr Urdd :-
  Ela Mablen Griffiths-Jones a ddaeth yn 1af yng nghystadleuaeth Llefaru Bl.2 ac Iau a 1af yn yr Unawd Cerdd Dant Bl.2 ac Iau
  Fflur McConnell, 1af Unawd Bl.2 ac Iau
  Connor Franklin, 3ydd Llefaru i Ddysgwyr Bl.5 a 6
  ac i'r Parti Unsain a wnaeth yn dda iawn hefyd.
  Yn yr Eisteddfod Ddawns mi ddaeth y parti dawnsio yn 2il, llongyfarchiadau mawr a diolch i Hannah am ei dysgu.
- Treuliodd Marc Griffiths pedwar diwrnod yng nghwmni dosbarthiadau CA.2. Cafodd pob un o'r dosbarthiadau gyfle i greu rhaglen radio a gafodd ei darlledu gyda'r nos ar Cymru FM. Mwynhaodd pawb y profiad.
- Fel arfer cynhaliwyd cystadlaethau Gŵyl Ddewi rhwng tai yr ysgol, Cadwgan, Pentŵr ac Alban.Yn y bore aethpwyd o gwmpas y dref gyda phawb wedi eu gwisgo yn eu dillad traddodiadol. Beirniaid eleni oedd Mrs Winnie Charlton a Catrin Charlton, diolch iddynt am roi o'u hamser.Ar ddiwedd y dydd ar ôl beirniadu'r gwisgoedd, y daffodils a'r cennin, tŷ Alban ddaeth i'r brig gan gipio tarian Dydd Gŵyl Dewi.
- Cynhaliwyd Eisteddfodau'r Ysgol wythnos yn Nhymor y Pasg. Ar ôl cystadlu brŵd Cadwgan oedd yn fuddugol yn y Cyfnod Sylfaen ac Alban yng nghyfnod allweddol 2.Da iawn nhw. Enillwyd y Gadair gan James Markham, y Goron gan Tilly a'r Tlws Celf gan Jessica Jones.
  Enillwyd cadair y Cyfnod Sylfaen gan Iolo a'r Tlws Celf gan Sam.
- Llongyfarchiadau i gwmni Creu Aeron ag enillodd lle yn rownd Genedlaethol cystadleuaeth menter a busnes 'Y Criw Mentrus' Syniadau Mawr Cymru oedd yng Nghaerdydd ar yr 22ain o Fawrth.Roeddent yn hollol wych.Yr ydym yn ymfalchio yn y ffaith bod yr ysgol yn cystadlu ar lefel cenedlaethol a phob lwc iddynt.Diolch i fusnesau Aberaeron sydd wedi ein cynorthwyo yn fawr ac edrychwn ymlaen at gydweithio eto
- Roedd hi'n braf cael croesawu Cerddorfa o athrawon teithiol cerddoriaeth y sir i'r ysgol. Cafwyd ganddynt gyngerdd rhagorol gan gyflwyno bob offeryn yn ei dro. Diolch am gyngerdd mor wych.
- Bu disgyblion Bl. 5 a 6 yn mwynhau wythnos o weithgareddau yng Nghanolfan Awyr Agored Pentywyn. Cafwyd wythnos wrth eu bodd gyda phawb yn mwynhau y gweithgareddau môr a mynydd. Diolch i Mr Jones, Miss Tobias, Miss Rhian a Miss Marjory am fynd i gynorthwyo.
- Llongyfarchiadau i Ela Mablen Griffiths-Jones am ennill y wobr gyntaf am ganu Cerdd Dant dan 8 oed a'r ail wobr am Lefaru yn yr un oed yn Fflint eleni. Yr un llongyfarchiadau i Fflur McConnell ar ennill y trydydd wobr am ganu dan 8. Rydym fel ysgol yn ymfalchïo yn eich camp anhygoel. Gwych ferched.
- Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen amser gwych yn gwylio'r sioe 'Diwrnod Prysur Sali Mali' yn Theatr Felinfach
- Aeth disgyblion y Meithrin, Derbyn, Bl. 3 a 4 i draeth y de i gymryd rhan mewn gweithgareddau traeth gyda Melanie Heath.
- Llongyfarchiadau i'r 17 o flwyddyn 6 a fu'n perfformio yng nghôr Bl.6 eleni. Da iawn Elis, Swyn a Caryl a oedd hefyd yn ran o gerddorfa'r Sir a Swyn hefyd yn ran o'r Côr Telynau.
- Roedd hi mor braf hefyd gweld Ela Mablen yn cynrychioli'r ysgol wrth ganu Cerdd Dant.
- Derbyniodd Bl.5 a 6 wersi 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth'. Roedd yn ddiddorol iawn, ac fe wnaeth y plant ymateb yn wych.
- Cafwyd bwrlwm mawr wrth i 23 o gwmnïau bach diddorol lenwi y neuadd a'r iard. Diolch i Mr Dai Morgan am ddod i feirniadu. Ar ddiwedd y dydd Catrin Creadigol a C'est bon! Sebon oedd yn fuddugol.
- Diolch i'r holl rieni a ddaeth i gefnogi Mabolgampau CS, ac i'r plant am eu cyfraniadau. Ar

ddiwedd y diwrnod Alban ddaeth i'r brig.

- Cafwyd diwrnod bendigedig yn Mabolgampau C.A. 2 gyda phob plentyn yng nghyfnod allweddol 2 yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o gystadlaethau hwylus a chystadleuol. Ar ddiwedd y dydd Cadwgan a Pentwr ddaeth yn gydradd 1af. Derbyniwyd y darian Athletwraig y flwyddyn gan Lucy Beddows a Athletwr y flwyddyn Kyle Crees.
- Roedd yn braf gweld cymaint o blant yr ysgol yn rhedeg 'Ras yr Iaith' a chôr yr ysgol yn canu i groesawu'r Ras i'r dref. Hefyd gwelwyd Tilly, Swyn a Jessica yn siarad ar 'Heno' ar S4C.
- Mwynhaodd Bl.4 dair noson yn 'Naturesbase' Cilcennin. Mae Naturesbase yn cynnig pob math o weithgareddau cyffrous ac addysgol yn yr awyr agored. Dychwelodd pawb wedi blino ond wedi cael amser da dro ben. Diolch i'r staff am rhoi o'u hamser.
- Aeth Bl.1 a 2 i ganu ym Min y Môr ar Ddiwrnod Cartrefi Gofal Cymru.
- Diolch i bawb a wnaeth gefnogi'r ysgol drwy ymuno â ni i ddiddanu yn yr Wŷl Bysgod. Cafwyd amrywiaeth o eitemau gyda nifer yn perfformio yn gyhoeddus am y tro cyntaf.
- Diolch i Mari Rhian Owen sydd wedi bod yn cynnal Gweithdai drama a llafar gyda Bl.3 a 4. Gyfnod
- Diolch i staff yr ysgol am drefnu

Categori Iaith

Yn unol a pholisi iaith Ceredigion, Cymraeg yw prif iaith yr ysgol o 3-11 mlwydd oed. Addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol a chyflwynir Saesneg fel pwnc ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2(blwyddyn 3-6). Nôd yr ysgol yw sicrhau bod pob disgybl yn hollol ddwyieithog erbyn eu bont yn cyrraedd 11mlwydd oed.

Staffio

Collwyd aelod o staff annwyl iawn, sef Mrs Janet Morgan i gancr yn ystod y flwyddyn. Mae ein colled yn enfawr.

Polisïau/Policies

Adolygir bolisïau'r ysgol yn flynyddol.

Cynllun Gwella Ysgol a Hunan Arfarniad

Mae CGY yn cael ei ddiweddaru yn flynyddol ac yn deillio'n uniongyrchol o ganfyddiadau prosesau hunan arfarnu'r ysgol. Gwelwyd ffocws ar ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer ysgrifennu Cymraeg a Saesneg, Llythrennedd Digidol, TGCh, prosesau asesu ar gyfer dysgu a datblygu effaith grwpiau ymyrraeth ar safonau. Adroddir ar gynnydd yr ysgol yn erbyn y blaenoriaethau yma yn dymhorol. Gwelwyd yr ysgol yn gwneud cynnydd da eleni. Rhoddwyd yr ysgol yng nghategori cymorth 'melyn' eleni yn system gategoreiddio cenedlaethol. Mae'r ysgol yn parhau i fesur cynnydd yn erbyn argymhellion Estyn 2011.

Prosbectws Ysgol

Mae'r newidiadau yn adlewyrchu newid staff, dyddiadau, trefniadau a chanlyniadau diwedd Cyfnod Allweddol. Mae'r prosbectws yn y broses o gael ei ail-wampio ac y bydd yn cael ei osod ar y wefan newydd Nadolig 2016.

Cyfleusterau Tai Bach

Mae gan yr ysgol bedwar tŷ bach ar gyfer y merched a phedwar tŷ bach ar gyfer y bechgyn yn ardal y Cyfnod Sylfaen. Ceir pedwar tŷ bach i'r merched a dau dy bach a tri wrinal i'r bechgyn. Yn ogystal ceir dau dy bach anabl, un yn y brif adeilad ac un yn y cabannau.

Diolch i'r disgyblion, rhieni, staff a ffrindiau'r ysgol am eu gwaith arbennig i sicrhau bod gennym ysgol ardderchog lle mae disgyblion yn cyflawni eu potensial.

Cadeirydd_____
Dyddiad_____